Menter Cymru Gyfan ar gyfer Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth

All Wales Nursing and Midwifery Education Initiative

Egwyddorion Dethol a Derbyn

Selection and Admissions Principles

Nyrsio a Bydwreigiaeth

Nursing and Midwifery

Grŵp Cymru Gyfan ar Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyn Cofrestru, 22.09.2011
Wedi'u creu i fod yn gyson â Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
All Wales Nursing and Midwifery Pre Registration Group 22.09.2011
Designed to meet NMC Standards

Egwyddorion Dethol a Derbyn Cymru Gyfan

Cyflwyniad

Mae Egwyddorion Derbyn Cymru Gyfan ar gyfer rhaglenni sy'n arwain at gofrestru'n tanlinellu'r safonau a'r gofynion proffesiynol ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru. Maen nhw hefyd yn rhoi sylw i'r egwyddorion sy'n sail i ehangu mynediad, cynhwysiant cymdeithasol a chynyddu hyblygrwydd. Mae'r egwyddorion yn bodloni gofynion y Sefydliadau Addysg Cymeradwy unigol, Cod Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (QAA) ar Dderbyniadau (2006) a'r rhaglen SPA (*Supporting Professionalism in Admissions*) sy'n hybu proffesiynoldeb mewn gwaith derbyn.

Mae gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC, 2010) ar ddethol a recriwtio'n tanlinellu pwysigrwydd cynnal safonau dethol ar gyfer rhaglenni nyrsio a rhaglenni bydwreigiaeth fel ei gilydd. Ers blynyddoedd, mae astudio rhaglenni bydwreigiaeth wedi bod ar lefel gradd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, ac mae'r meini prawf derbyn yn gymesur â'r lefel o astudio sy'n ofynnol wrth ddilyn rhaglen gradd.

Mae Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2010) ar gyfer Addysg Nyrsio Cyn Cofrestru'n cydnabod cymhlethdod nyrsio a'r holl wahanol sgiliau mae gofyn i nyrsys eu cael i fod yn gymwys ar adeg eu cofrestru, ac mae'r newidiadau mae gofyn eu gwneud i'r cwricwlwm erbyn 2013 yn cyfleu hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod rhaglenni nyrsio cyn-gofrestru'n cael eu cyflwyno ar ffurf gradd, ac, yng Nghymru, bydd pob sefydliad addysg yn rhoi cwricwlwm newydd ar waith ar gyfer nyrsio o fis Medi 2012.

Bydd rhoi Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2010) ar waith ar hyd a lled Cymru'n datblygu gwaith Menter Cymru Gyfan ar Fynediad a Derbyniadau (2002). Cyflwynwyd pob un o'r rhaglenni cyn-gofrestru mewn nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru ar ffurf cyrsiau gradd, a hynny er 2002 i Fydwreigiaeth a 2004 i Nyrsio, ac mae gwneud hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni i'r fath raddau fel bod pum ymgeisydd o leiaf i bob lle sydd ar gael. Cydnabyddir bod mynediad i raglenni gradd mewn nyrsio a bydwreigiaeth cyn-gofrestru'n gystadleuol, a rhoddwyd sylw i anghenion recriwtio'r gwahanol sefydliadau addysg.

Cydnabyddir ar hyd a lled Cymru fod y galw am leoedd ar y rhaglenni gradd ym mhob un o feysydd nyrsio a bydwreigiaeth wedi gwneud denu ymgeiswyr yn fwy cystadleuol. Mae'r broses o ddethol ymgeiswyr wedi'i seilio ar nifer o wahanol ffactorau sy'n cynnwys gallu academaidd, gallu'r ymgeiswyr i ddeall cymhlethdodau rôl ofal y nyrs neu'r fydwraig, a'u gallu i ddeall y gofynion proffesiynol sydd ar bob unigolyn.

Anogir unigolion o bob math o gefndir i ymgeisio er mwyn hybu egwyddorion ehangu mynediad, cyfranogi ac amrywiaeth.

All Wales Selection and Admission Principles

Introduction

The All Wales Admissions Principles for programmes that lead to registration support the standards and professional requirements for pre-registration nursing and midwifery education, whilst taking into account the principles of widening access, social inclusion and increasing flexibility. The principles also meet the requirements of the individual Approved Education Institutes (AEIs), the Quality Assurance Agency for Higher Education (QAA) Code of Practice for Admissions (QAA 2006) and Supporting Professionalism in Admissions (SPA).

The importance of maintaining the standards for selection to both nursing and midwifery programmes is supported by the Nursing and Midwifery Council (NMC (2010) requirements for selection and recruitment. Entry to midwifery programmes has been at graduate level across the United Kingdom (UK) for a number of years and entry criteria reflect the level of study required to access a degree programme.

The NMC Standards for Pre-Registration Nurse Education (2010) has recognised the complexity of nursing and the range of skills required to be a competent nurse at the point of registration, and this is reflected in the curriculum changes required by 2013. The NMC also requires pre-registration nursing programmes to be delivered at graduate level, and within Wales, all AEIs will implement a new curriculum for nursing from September 2012.

The implementation of the NMC Standards (2010) across Wales builds on the work of the All Wales Initiative for Access / Entry (2002). The pre-registration nursing and midwifery programmes across Wales have all been delivered at graduate level since 2002 for Midwifery and 2004 for Nursing, and this has increased applications to all programmes, with at least five applicants for each place. It is recognised that admission to the pre-registration nursing and midwifery degree programmes are competitive and cognisance has been taken of the individual AEIs recruitment needs.

It is acknowledged that across Wales the demand for places on the degree programmes for all fields of nursing and midwifery has increased competition for applicants. The selection of applicants is based on a variety of factors that include academic ability, the applicants understanding of the caring and complex role of the nurse/midwife and understanding of the professional demands on the individual.

Applications from individuals from a variety of backgrounds are encouraged to apply to embrace the philosophy of widening access, participation and diversity.

Gweithredu ar sail Cymru Gyfan

Nod yr egwyddorion yw ehangu mynediad ond cynnal safonau ar yr un pryd. Bydd yr egwyddorion yn rhoi sylw i'r prif agweddau cyffredin ar ddethol ond hefyd yn caniatáu ar gyfer gofynion penodol y gwahanol sefydliadau addysg. Mae'r holl sefydliadau yng Nghymru'n cynnwys pobl yn eu prosesau dethol a recriwtio sy'n cynrychioli gofalwyr a darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r egwyddorion hefyd yn hwyluso'r dasg o ddethol ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion penodol y proffesiwn yng nghyd-destun Cymru fodern, amlddiwylliannol a dwyieithog.

Egwyddorion Cyffredinol

Rhaid i'r prosesau ar gyfer dethol a derbyn fod yn agored ac yn deg, a rhaid iddyn nhw fodloni Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Addysg Nyrsio Cyn Cofrestru (Safon 3, 2010) a Bydwreigiaeth (Safon 4, 2009).

Meini Prawf Derbyn

Bydd pob sefydliad addysg cymeradwy'n bodloni Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Bydwreigiaeth 2009, Nyrsio 2010) o safbwynt hyfedredd yn y Saesneg neu'r Gymraeg ac mewn Rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth, ac wedi ennill y cymwysterau academaidd ar y lefel berthnasol. Bydd y sefydliadau addysg hefyd yn sicrhau bod y gofynion proffesiynol yn cael eu bodloni o safbwynt Safon y Cyngor ar iechyd a chymeriad da.

Bydd pob sefydliad yn rhoi sylw i gyfleoedd i Achredu Dysgu Blaenorol pob unigolyn fel sy'n briodol, hyd at yr uchafswm derbyniol o 50%. Nid yw'r broses o Achredu Dysgu Blaenorol wedi'i chymeradwyo ar hyn o bryd ar gyfer mynediad uniongyrchol i raglen mewn bydwreigiaeth.

Y broses ymgeisio

Bydd gofyn i bawb sy'n gwneud cais i wneud gradd mewn nyrsio cyn-gofrestru (pob maes) a bydwreigiaeth, wneud hynny drwy UCAS (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau).

www.ucas.ac.uk

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf mae pob un o'r sefydliadau addysg wedi'u sefydlu. Gwahoddir y rhai ar y rhestr fer i ddau weithgaredd dethol pellach, a fydd yn cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb (atodiad 1). Rhaid i bob ymgeisydd roi dau dystlythyr, a rhaid i un o'r rhain fod ar ffurf y Datganiad o Gymeriad ar gyfer Cymru Gyfan (atodiad 2).

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig sy'n amodol ar roi tystiolaeth foddhaol yn y meysydd canlynol:

- Sgrinio o safbwynt iechyd galwedigaethol
- Datgeliad Manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)
- Cyrhaeddiad academaidd penodol
- Tystiolaeth o gymeriad da

Bydd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael cyfle i gael adborth, yn unol â pholisïau'r gwahanol sefydliadau addysg.

All Wales Approach

The principles aim to maintain the wide entry gate, while maintaining standards and will address commonalities and key areas in relation to selection whilst allowing for individual AEIs requirements. All AEIs in Wales involve representatives from service providers, service users and carers in their selection and recruitment processes. The principles also facilitate the selection of applicants to meet the specific demands of practice in the context of a modern, multi-cultural, bilingual Wales.

General Principles

Processes for selection and admission, must be open and fair and meet the NMC Standards for Pre-Registration Nurse (Standard 3, 2010) and Midwifery (Standard 4, 2009) Education.

Entry Criteria

All AEIs will meet the NMC Standards (Midwifery 2009, Nursing 2010) in relation to proficiency in English Language / Welsh Language, Numeracy, IT plus academic qualifications at the relevant level. AEIs will also ensure Professional requirements are met in relation to the NMC Standard for good health and character.

Opportunity for Accreditation of Prior Learning (APL) will be addressed by each AEI on an individual basis as appropriate, up to the maximum allowed of 50%. APL is not currently approved for direct entry midwifery programme.

Application process

All applicants to the pre-registration nursing (all fields) and midwifery degree will be required to apply via the Universities and Colleges Admission Service (UCAS).

www.ucas.ac.uk

All applicants will be reviewed for suitability against established criteria in each AEI and those shortlisted will be invited for further selection activities, which will include a face-to-face engagement (appendix 1). Two references must also be provided one of which must be the All Wales Statement of Character (appendix 2).

Successful applicants will receive a conditional offer that is subject to satisfactory:

- Occupational health screening
- Criminal Record Bureau (CRB) Enhanced Disclosure
- Specific academic attainment
- Evidence of good character

Unsuccessful applicants will be offered feedback in line with individual AEI policies.

Cyfeirnodau

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2008), cylchlythyr *13/2008, Good practice guidance for selection of candidates to pre-registration nursing and midwifery programmes.* NMC Portland Place Llundain

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2009), *Standards for pre-registration midwifery education.* NMC Portland Place Llundain

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2010), *Standards for pre-registration nursing education.* NMC Portland Place Llundain

QAA, www.qaa.org

QAA (2006), *Code of practice for the assurance of academic quality and standards in higher education. Section 10: Admissions to higher education.* Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (QAA), Caerloyw

SPA, www.spa.ac.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *"Gwireddu'r Potensial" Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain, Papur Briffio 1 "CREU'R POTENSIAL" Cynllun ar gyfer Addysg.* Hawlfraint y Goron, Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002), *Cymhwyster i Ymarfer: Menter Cymru Gyfan, Adran 2 Polisi Cymru Gyfan ar Fynediad a Derbyniadau i Addysg Nyrsio Cyn Cofrestru.* Hawlfraint y Goron, Caerdydd.

References

Nursing and Midwifery Council (2008), *Circular 13/2008, Good practice guidance for selection of candidates to pre-registration nursing and midwifery programmes.* NMC Portland Place London

Nursing and Midwifery Council (2009), *Standards for pre-registration midwifery education.* NMC Portland Place London

Nursing and Midwifery Council (2010), *Standards for pre-registration nursing education.* NMC Portland Place London

QAA, www.qaa.org

QAA (2006), Code of practice for the assurance of academic quality and standards in higher education. *Section 10: Admissions to higher education.* The Quality Assurance Agency for Higher Education, Gloucester

SPA, www.spa.ac.uk

The National Assembly for Wales (2000) *"Realising the potential" A Strategic Framework for Nursing, Midwifery and Health Visiting in Wales into the 21st Century, Briefing Paper 1 "CREATING THE POTENTIAL" A Plan for Education.* Crown Copyright Cardiff.

Welsh Assembly Government (2002), *Fitness for practice: All Wales Initiative Section 2 Access/Entry All Wales Policy for pre-registration nursing education* Crown Copyright Cardiff.

Atodiad 1

Meini Prawf Cyfweld
(Yr egwyddorion)

Grŵp Cymru Gyfan ar Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyn Cofrestru, 22.09.2011
Wedi'u creu i fod yn gyson â Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
All Wales Nursing and Midwifery Pre Registration Group 22.09.2011
Designed to meet NMC Standards

Appendix 1
Interview Criteria
(Principles)

`	**Rhagorol**	**Da**	**Boddhaol**	**Gwael**
Cymhelliad	Yn rhoi rhesymau da a phendant dros fynd i fyd nyrsio/ bydwreigiaeth	Yr trafod y rhesymau dros fynd i fyd nyrsio/ bydwreigiaeth	Yn cynnig rhai rhesymau dros fynd i fyd nyrsio/ bydwreigiaeth	Yn cynnig rhesymau amwys yn unig dros fynd i fyd nyrsio/ bydwreigiaeth
Sgiliau cyfathrebu	Yn cyfleu ei atebion yn dda ac yn cyfiawnhau ei safbwynt. Yn defnyddio sgiliau di-eiriau mewn ffordd briodol	Yn cyfleu ei atebion yn dda. Yn cyfiawnhau ei safbwynt	Yn gallu ateb y cwestiynau	Yn methu ateb cwestiynau'n glir. Yn defnyddio sgiliau amhriodol
Dealltwriaeth o ofynion y cwrs	Gwybodaeth drylwyr am y cwrs ac wedi ystyried pob agwedd arno	Gwybodaeth fanwl am y cwrs ac wedi ystyried rhai agweddau arno	Rhywfaint o wybodaeth am y cwrs a dealltwriaeth o'i ofynion	Ychydig iawn o wybodaeth am y cwrs ac am ei ofynion
Dealltwriaeth o rôl y Nyrs neu'r Fydwraig broffesiynol	Yn dangos ei fod yn deall rôl y nyrs neu'r fydwraig	Yn gallu disgrifio rhai agweddau ar rôl y nyrs neu'r fydwraig	Prin bod *dealltwriaeth o rôl y nyrs neu'r fydwraig*	Dim dealltwriaeth o gwbl o rôl y nyrs neu'r fydwraig
Dealltwriaeth o'r rhaglen a ddewiswyd	Yr amlwg yn deall natur a goblygiadau'r rhaglen mae wedi'i dewis, ac wedi ymrwymo iddi	Yn amlwg yn deall y rhaglen a ddewiswyd ac yn rhoi'r argraff ei fod wedi ymrwymo iddi	Rhywfaint o ddealltwriaeth o'r rhaglen a ddewiswyd	Fawr ddim neu ddim dealltwriaeth o'r rhaglen a ddewiswyd
Gwybodaeth am broblemau cyfredol y proffesiwn nyrsio/ bydwreigiaeth/ iechyd	Yn gallu trafod un o broblemau cyfredol y proffesiwn ac yn amlwg yn ei deall yn dda	Yn gallu trafod un o broblemau cyfredol y proffesiwn	Yn gwybod am un o broblemau cyfredol y proffesiwn	Yn gwybod fawr ddim am unrhyw un o broblemau cyfredol y proffesiwn
Dealltwriaeth gadarn o'r term Gofal a'r rôl Ofal	Yn amlwg yn deall ac yn gallu diffinio ystyr Gofal	Ymwybyddiaeth o ystyr Gofal ac yn gallu disgrifio rhai agweddau arno	Rhywfaint o ymwybyddiaeth o ystyr y term Gofal	Fawr ddim neu ddim ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth yng nghyswllt y term Gofal

	Excellent	Good	Satisfactory	Poor
Motivation	Clearly demonstrates good reasons for entering nursing / midwifery	Discusses reasons for entering nursing / midwifery	States some reasons for entering nursing / midwifery	Gives only vague reasons for entering nursing / midwifery
Communication Skills	Articulates answers well and justifies responses. Uses non verbal skills appropriately	Communicates answers well. Justifies responses	Is able to answer the questions	Unable to answer questions clearly. Uses inappropriate skills
Awareness of demands of the Course	Has knowledge of, and considered all aspects of the course	Has knowledge of, and considered some aspects of the course	Shows some knowledge and awareness of the demands of the course	Shows little knowledge of the demands of the course
Understanding of role of the professional Nurse / Midwife	Demonstrates an understanding of the role of the nurse / midwife	Can describe some aspects of the role of the nurse / midwife	Shows minimal insight into the role of the nurse / midwife	Has no insight into the role of the nurse / midwife
Understanding of Programme Choice	Gives clear indication that they understand the nature and the implications of their chosen programme. Is motivated towards programme choice	Demonstrates an understanding and appears motivated towards their chosen programme	Demonstrates some understanding of their chosen programme	Demonstrates little or no insight into their chosen programme
Knowledge of current professional issues in Nursing/Midwifery/ Health	Debates a current professional issue demonstrating a clear understanding	Is able to discuss a current professional issue	Has awareness of a current professional issue	Has little awareness of any current professional issue
Demonstrates an understanding of what is meant by Care/Caring	Demonstrates understanding and is able to articulate what is meant by Care.	Demonstrates an awareness of what is meant by Care and can describe some aspects of it.	Demonstrates some awareness of what is meant by the term Care.	Demonstrates little or no awareness/ understanding in relation to the term Care.

Atodiad 2

Datganiad o Gymeriad

Grŵp Cymru Gyfan ar Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyn Cofrestru, 22.09.2011
Wedi'u creu i fod yn gyson â Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
All Wales Nursing and Midwifery Pre Registration Group 22.09.2011
Designed to meet NMC Standards

Appendix 2

Statement of Character

Grŵp Cymru Gyfan ar Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyn Cofrestru, 22.09.2011
Wedi'u creu i fod yn gyson â Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
All Wales Nursing and Midwifery Pre Registration Group 22.09.2011
Designed to meet NMC Standards

Pennawd a logo'r brifysgol

Annwyl (*enw'r ymgeisydd)*

Mewn ymateb i'ch cais, gofynnaf i chi nodi mai'r polisi yng Nghymru yw bod rhaid i bob myfyriwr sy'n cyflwyno cais i ddilyn cwrs mewn Nyrsio neu Fydwreigiaeth ofyn i rywun lenwi Datganiad o Gymeriad ar ei ran. Rhaid i'r datganiad gael ei wneud gan rywun sydd wedi eich adnabod ers amser (blwyddyn o leiaf fel arfer) ac sydd mewn sefyllfa i gynnig sylwadau gwrthrychol ar eich rhinweddau personol. **NI ALL** aelod o'r teulu neu gyfaill teuluol neu bersonol wneud y datganiad hwn.

Dylech chi ofyn am Ddatganiad o Gymeriad gan **un** o'r canlynol:

1) Os ydych chi eisoes yn gwneud gwaith 'gofal' mewn cartref preswyl, ysbyty neu leoliad yn y gymuned, **RHAID** i chi ofyn i reolwr, i oruchwyliwr neu i ymarferydd cofrestredig am y Datganiad o Gymeriad.

Fel arall:

2) Os ydych chi'n dal yn astudio mewn ysgol neu goleg (yn llawn amser neu'n rhan amser), gofynnwch i athro sydd wedi eich addysgu'n rheolaidd.

3) Os ydych chi'n aelod o grŵp ieuenctid, grŵp cymunedol neu eglwys, gofynnwch i arweinydd grŵp sydd wedi gweithio'n rheolaidd gyda chi.

4) Os ydych chi'n gweithio am dâl, gofynnwch i oruchwyliwr neu reolwr, neu i un o'ch cydweithwyr sydd ar lefel uwch na chi ac sydd wedi gweithio'n rheolaidd gyda chi.

5) Os ydych chi'n gwneud chwaraeon neu adloniant y tu allan i'r gwaith neu'r ysgol, gofynnwch i arweinydd y mudiad rydych chi'n gysylltiedig ag e ac sydd wedi cwrdd yn rheolaidd â chi.

6) Os ydych chi'n gwneud gwaith gwirfoddol neu'n gweithredu fel gofalwr, gofynnwch i arweinydd neu i oruchwyliwr y project sydd wedi gweithio'n rheolaidd gyda chi.

7) Os ydych chi'n aelod o grŵp neu bwyllgor cymunedol neu un yn yr ysgol, gofynnwch i arweinydd a oedd yn aelod rheolaidd o'r grŵp neu'r pwyllgor gyda chi.

Manylion cyswllt y sawl rydych chi wedi gofyn iddo am ddatganiad o gymeriad:
Teitl
Enw
Cyfeiriad
Rhif ffôn E-bost

Anfonwch y wybodaeth uchod at y Swyddfa Derbyn *(rhowch y cyfeiriad llawn).*
Os ydych chi'n cael trafferth bodloni'r gofyniad i gael 'Datganiad o Gymeriad', cysylltwch â swyddfa derbyn y brifysgol i ofyn am gyngor.

University Heading and logo

Dear (*Applicants name)*

Following your application it is the policy in Wales for all students applying for either a Nursing or Midwifery course, that a Statement of Character must be completed on your behalf. It must be given by someone who has known you for a substantial period of time (normally at least a year) and who is in a position to comment objectively on your personal qualities. This person **MUST NOT** be a family member or personal/family friend.

You should obtain the Statement of Character from **one** of the following sources:

1) If you are currently undertaking 'care' work in a residential, hospital or community setting you **MUST** obtain the Statement of Character from this source – from either a manager/supervisor/registered practitioner.

Otherwise:

2) If you are still in school/college (full or part time) – from a teacher who has personally taught you on a regular basis.

3) If you attend a youth/community/church group – from a group leader who has worked with you regularly.

4) If you are in paid employment – from a supervisor, manager or senior colleague who has worked with you regularly.

5) If you play a sport or pursue an interest outside of work or school – from a leader of the organisation that you are associated with who has met with you regularly.

6) If you undertake voluntary work or act as a carer – from a leader/supervisor of the project who has worked with you regularly.

7) If you sit on a community/school group or committee – from a leader who has sat on the committee/group with you regularly.

Contact details for the person you have requested the statement of character from:
Title
Name
Address
Telephone Email

Please return the above information to the Admissions Office *(Full address).*
Should you find it difficult to meet the 'Statement of Character' requirement, please contact the University admissions department for advice.

Insert University name and logo

Enw a logo'r brifysgol

Annwyl Syr/ Fadam

Enw'r ymgeisydd

Mae'r ymgeisydd uchod wedi eich enwi fel rhywun a allai roi datganiad o gymeriad i gefnogi ei gais i gael ei dderbyn ar gwrs mewn nyrsio neu fydwreigiaeth.

Mae gwaith nyrsys a bydwragedd yn galw am ymddiriedaeth, a'u prif ddyletswydd yw gofalu am bobl (cleifion neu gleientiaid), gan eu trin fel unigolion a pharchu eu hurddas. I wneud hyn, rhaid i'r nyrs neu'r fydwraig feddu ar y rhinweddau neu'r nodweddion personol canlynol: rhaid iddi fod yn hunanymwybodol, yn foesgar, yn llawn gofal, yn garedig, yn onest, yn dosturiol, yn rhywun mae pobl yn fodlon ymddiried ynddo, ac yn gallu cyfathrebu'n dda.

Wrth ystyried ymgeiswyr i wneud cwrs mewn nyrsio neu fydwreigiaeth (y genhedlaeth nesaf o nyrsys a bydwragedd cymwysedig) mae'n bwysig ein bod yn sicrhau fod ganddynt y rhinweddau a restrwyd uchod. Oherwydd hyn, bydd eich datganiad yn hynod o bwysig yn y gwaith o asesu pa mor addas yw'r ymgeisydd i wneud hyfforddiant proffesiynol.

Atebwch y cwestiynau canlynol mor onest a llawn ag y gallwch chi.

Lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, rydyn ni'n gofyn am enghraifft o'r ffordd mae'r ymgeisydd wedi dangos y rhinwedd dan sylw.

Os ydych chi'n teimlo na allwch lenwi'r datganiad cyfan neu rannau ohono, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r swyddfa derbyn i ofyn am gyngor.

Yr eiddoch yn gywir

Dear Sir/ Madam

Re: Name of candidate

The candidate above has given your name as one who may provide a statement of character to support their application for a course in nursing/ midwifery.

Nurses and midwives are in a position of trust and must make the care of people (patients/clients) their first concern, treating them as individuals and respecting their dignity. To do this the nurse or midwife must possess the following personal attributes or qualities; be self aware, polite, kind, caring, honest, compassionate, trustworthy and able to communicate well.

It is important when considering applicants for nursing/midwifery courses (our future qualified nurses and midwives) that they possess the attributes stated above and your statement is vitally important therefore in helping to assess the suitability of the candidate to enter professional training.

Please answer the following questions as honestly and fully as you can.

Where possible you are asked to provide an example of how the candidate has displayed the character qualities indicated.

If you feel unable to complete any or all of this statement, please contact the admissions department for further advice on

Yours Faithfully

Pennawd a logo'r brifysgol

Diolch i chi am gytuno i roi'r datganiad hwn o gymeriad:

Enw..... Dyddiad geni.....

Cyfeiriad

Ar sail eich gwybodaeth orau, rhowch dic yn y blwch priodol dan bob set o osodiadau sy'n cyfleu'r ymateb sy'n gweddu orau i'r ymgeisydd dan sylw. Wrth lenwi'r ffurflen, y sgôr uchaf y gallwch chi ei rhoi yw 7, a'r isaf yw 1. I unrhyw ymgeisydd gyfrif fel ymgeisydd addas, bydd disgwyl iddo gael sgôr o 25 o leiaf, er y byddwn ni'n rhoi sylw i'r datganiad hwn ar y cyd â'r ffurflen gais, y cyfweliad a'r tystlythyr academaidd.

Byddai o help garw hefyd pe baech chi, lle bynnag y gallwch chi, yn rhoi enghreifftiau yn y man priodol o dan bob un o'r gosodiadau, fel ffordd o ddarlunio'ch ymateb.

1.

Yn gwrtais bob amser				**Yn gallu bod yn swta ar brydiau, a hyd yn oed yn ddigywilydd**		
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

2.

Yn rhoi'r argraff fod diddordeb ganddi mewn unigolion bob amser				**Yn rhoi'r argraff ei bod yn ddifater**		
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

University heading and logo

Thank you for agreeing to provide this statement of character for:

Name..... DOB.....

Address

To the best of your knowledge, for each set of statements please indicate by ticking the appropriate box the response that most suits the applicant. When completing the form below 7 is the highest score you can award and 1 is the lowest. Candidates would normally be expected to have a score of 25 or above to be considered suitable, although this reference is considered in conjunction with the application form, interview and academic reference.

It would also be very helpful if you would give examples, where possible, to illustrate your response in the space provided below each statement.

1.

Is always Polite				**Can sometimes be abrupt even rude on occasions**		
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Examples

2.

Always seems interested in an individual				**Appears indifferent**		
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Examples

3.

Yn wrandäwr da						**Yn rhoi'r argraff nad yw'n gwrando**
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

4.

Yn parchu barn a dymuniadau pobl eraill			**Yn dangos fawr ddim diddordeb ym marn a dymuniadau pobl eraill**			
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

5.

Yn parchu preifatrwydd ac urddas pobl eraill			**Fawr ddim ymwybyddiaeth o breifatrwydd ac urddas pobl eraill**			
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

6.

Yn llawn gofal tuag at bobl eraill						**Agwedd digon di-hid at bobl eraill**
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

3.

Is a positive listener **Does not appear to listen**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

4.

Respects others views/opinions/wishes **Shows little awareness of others views/opinions/wishes**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

5.

Respects others privacy and dignity **Shows little awareness of others privacy and dignity**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

6.

Shows a caring disposition towards others **Shows little regard for others**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

7.

Yn gweithio'n dda fel aelod o dîm						**Fawr ddim ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau aelodau tîm**
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

8.

Bod amser yn gwneud y gwaith a roddwyd iddi						**Angen ei goruchwylio'n gyson i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud**
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

9.

Yn fodlon derbyn beirniadaeth adeiladol						**Yn amharod iawn i dderbyn beirniadaeth adeiladol**
☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
7	6	5	4	3	2	1

Enghreifftiau

Ysgrifennwch isod unrhyw sylwadau perthnasol eraill.

7.

Works well as a team member **Shows little awareness of team responsibilities**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

8.

Always carries out allocated work **Needs constant supervision to ensure work is done**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

9.

Happy to accept constructive criticism **Not happy to accept constructive criticism**

☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7 6 5 4 3 2 1

Examples

Please add any other comments you feel appropriate below.

Diolch i chi am roi o'ch amser i gwblhau'r datganiad hwn o gymeriad.

Llofnod

Enw llawn

Dyddiad

Eich swyddogaeth fel rhywun sy'n rhoi'r datganiad o gymeriad

Cyfeiriad

At ddefnydd y swyddfa'n unig:

Sgôr:

Thank you for your time in completing this statement of character.

Signature

Full Name

Date

Capacity in which you are supplying the statement of character

Address

For office use only:

Score: